Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Pobl a Threfniadaeth | People and Organisation

# Polisi Iechyd a Diogelwch

Rhagfyr 2019

healthandsafety@ceredigion.gov.uk

Cynnwys


1 Datganiad Polisi ..... 2

2 Diben ..... 4

3 Trefniadaeth a Chyfrifoldebau ..... 5

- 3.1 Aelodau Etholedig ..... 5
- 3.2 Prif Weithredwr ..... 5
- 3.3 Tîm Iechyd a Diogelwch ..... 5
- 3.4 Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ..... 6
- 3.5 Rheolwyr ..... 6
- 3.6 Cynrychiolwyr Diogelwch ..... 7
- 3.7 Y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth ..... 7
- 3.8 Cyflogeion ..... 8
- 3.9 Fforwm Iechyd a Diogelwch ..... 9

4 Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch ..... 10

5 Adolygu'r Polisi ..... 11

6 Atodiad 1 ..... 12

- 6.1 Adrodd am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt ..... 12
- 6.2 Asesiadau risg ..... 12
- 6.3 Sylweddau peryglus ..... 12
- 6.4 Diogelwch personol / gweithio'n unigol ..... 13
- 6.5 Cyfarpar Diogelu Personol ..... 13
- 6.6 Diogelwch tân ..... 13
- 6.7 Offer sgrin arddangos ..... 14
- 6.8 Diogelwch trydanol ..... 14
- 6.9 Trwydded waith ..... 14
- 6.10 Sŵn yn y gwaith ..... 14
- 6.11 Cyfarpar Gwaith ..... 14
- 6.12 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol ..... 15
- 6.13 Cymorth a Chyngor ..... 15

# 1 Datganiad Polisi

Mae iechyd a diogelwch yn gyfrifoldeb i bawb felly bydd Cyngor Sir Ceredigion yn:

- 'Hyrwyddo'n weithredol agwedd agored tuag at faterion iechyd a diogelwch, gan annog staff i nodi ac adrodd am beryglon er mwyn i bob un ohonom allu cyfrannu at greu a chynnal amgylchedd gwaith diogel.
- Sefydlu a gweithredu systemau a phrosesau iechyd a diogelwch i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n safleoedd a'n gweithgareddau.
- Monitro ein perfformiad yn rheolaidd a diwygio ein prosesau a'n systemau iechyd a diogelwch yn ôl yr angen i sicrhau ein bod y cyflawni ein hamcan o welliant parhaus.
- Darparu digon o adnoddau i fodloni gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol i gyflawni safonau arfer da sy'n berthnasol i'n gweithgareddau.
- Cyfathrebu ac ymgynghori gyda'r holl staff ar yr holl faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a diogelwch ac, wrth wneud hynny, dwyn eu sylw at y polisi hwn.
- Darparu hyfforddiant digonol i staff i'w galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol, ac i sicrhau eu bod yn hyfedr ac yn hyderus yn y gwaith y maent yn ei wneud.
- Cynnal ac adolygu'n rheolaidd asesiadau risg i nodi peryglon a mesurau rheoli presennol. Byddwn yn blaenoriaethu, cynllunio a chyflawni unrhyw gamau cywiro sydd eu hangen i leihau'r risg i lefel dderbyniol.
- Cadw ein safleoedd a'n cyfarpar gwaith i safon sy'n sicrhau y rheolir risgiau yn effeithiol.
- Sicrhau y caiff cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch eu dyrannu, eu deall, eu monitro a'u cyflawni.
- Cadw mynediad at gyngor a chymorth cymwys gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth ac arfer da.
- Cydweithio â sefydliadau eraill i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau i'w staff a phobl eraill yn sgil ein gweithgareddau, ein bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau i'n staff ni yn sgil eu gweithgareddau nhw, a'n bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth perthnasol.

Mae dyletswydd ar bawb wrth weithio:

- i ofalu'n rhesymol am ein diogelwch ein hunain

- i ofalu'n rhesymol am ddiogelwch pobl eraill y gall yr hyn yr ydym ni'n ei wneud neu'n methu â gwneud effeithio arnynt

- i gydweithredu er mwyn i bob un ohonom allu cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol

- i sicrhau nad ydym yn camddefnyddio nac yn tarfu ar unrhyw beth a ddarperir yn enw iechyd a diogelwch.

Llofnod y Prif Weithredwr:

Dyddiad: 08/01/20

Llofnod Arweinydd y Cyngor:

Dyddiad: 08/01/20

## 2 Diben

Mae'r polisi hwn yn amlinellu cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r strategaeth hyfforddi iechyd a diogelwch.

Mae cyfrifoldebau penodol o ran hyfforddiant wedi'u cynnwys yn y strategaeth hyfforddi.

Mae canllawiau penodol eraill ar gael yn yr adran Iechyd, Diogelwch a Lles ar Ceri Net.

# 3 Trefniadaeth a Chyfrifoldebau

## 3.1 Aelodau Etholedig

- Fe'u cynghorir gan Swyddogion y Cyngor ac mae cyfrifoldeb arnynt i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i allu gweithredu'r polisi hwn a'r holl gamau angenrheidiol eraill i reoli risgiau rhagweladwy a all beri niwed.

- Maent yn gyfrifol am graffu ar weithgareddau'r Cyngor a chynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau cysylltiedig a phrosiectau newydd a all fod â goblygiadau iechyd a diogelwch.

- Caiff aelod etholedig sydd â digon o wybodaeth a phrofiad ei benodi yn hyrwyddwr iechyd a diogelwch y Cyngor, a bydd yn goruchwylio datblygiad iechyd a diogelwch,ac yn mynychu'r holl gyfarfodydd perthnasol.

## 3.2 Prif Weithredwr

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff polisi iechyd a diogelwch y Cyngor ei weithredu a'i gynnal. Bydd y Prif Weithredwr yn hwyluso darpariaeth systemau i gyflawni'r canlynol:

- Sicrhau ymrwymiad cyflogeion i'r cynllun gwella iechyd a diogelwch;

- Sicrhau cyfranogiad, ymrwymiad ac ymgysylltiad ar bob lefel o'r Cyngor â gweithgareddau iechyd a diogelwch;

- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a threfniadau ategol i iechyd a diogelwch;

- Cyflwyno dulliau i sicrhau cymhwysedd cyflogeion a chydymffurfiaeth â'r polisi hyfforddi iechyd a diogelwch.

## 3.3 Tîm Iechyd a Diogelwch

Y rheolwr a'r tîm iechyd a diogelwch fydd yn gyfrifol am baratoi ac adolygu'r polisi hwn. Byddant hefyd yn:

- Arolygu, monitro ac archwilio polisïau, gweithdrefnau a threfniadau iechyd, diogelwch a rheoli risgiau;

- Hyfforddiant a chyngor cyffredinol a phenodol ar iechyd a diogelwch;
- Ymchwilio i ddamweiniau risg uchel, afiechydon y dylid adrodd amdanynt a digwyddiadau peryglus;
- Datblygu ac adolygu polisïau iechyd a diogelwch;
- Cynorthwyo gydag asesiadau risg uchel/cymhleth a darparu cyngor a chymorth rheoli diogelwch tân;
- Cynorthwyo gyda threfniadau rheoli Asbestos mewn adeiladau trwy archwilio a monitro;
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau lles a darparu cyngor a chymorth i reoli straen;

## 3.4 Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol

Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth ag iechyd a diogelwch yn eu meysydd gwasanaeth.

Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ymgymryd â swyddogaeth hyrwyddwr iechyd a diogelwch gan ddwyn materion iechyd a diogelwch i sylw'r Grŵp Arwain.

## 3.5 Rheolwyr

Bydd Rheolwyr Llinell a'r rheini sydd mewn swydd goruchwylio yn sicrhau, cyhyd ag y bo'n ymarferol:

- Y caiff asesiadau risg addas a digonol eu cynnal a'u hadolygu yn eu meysydd cyfrifoldeb;
- Y caiff y trefniadau i reoli risgiau eu gweithredu a'u cynnal;
- Eu bod yn cyfathrebu ac yn ymgynghori â staff ar faterion iechyd a diogelwch;
- Y darperir cyfleusterau lles ac y cânt eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr boddhaol;
- Y darperir safleoedd, cyfarpar a chyfarpar gwaith ac y'u cedwir mewn cyflwr diogel;

- Bod systemau ar waith i fonitro ac archwilio trefniadau iechyd a diogelwch a systemau diogel ar gyfer gweithio;

- Eu bod yn ymateb i argymhellion a nodir mewn adroddiadau archwilio iechyd a diogelwch ac yn gweithredu arnynt o fewn yr amserlen a nodir;

- Eu bod yn goruchwylio staff i sicrhau eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn dilyn systemau gwaith diogel;

- Yr adroddir am yr holl ddigwyddiadau a damweiniau fu bron digwydd ac yr ymchwilir iddynt;

- Y rhoddir digon o amser i gyflogeion gyflawni eu dyletswyddau iechyd a diogelwch;

- Eu bod yn cael amser rhesymol i ffwrdd o'u gwaith i gael hyfforddiant a chyflawni eu swyddogaethau statudol;

## 3.6 Cynrychiolwyr Diogelwch

Mae'r Cyngor yn cydnabod swyddogaeth a chyfraniad hanfodol cynrychiolwyr diogelwch er mwyn rheoli iechyd a diogelwch ac atal damweiniau mewn modd effeithiol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996. Mae cynrychiolwyr diogelwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Cynorthwyo rheolwyr a'r tîm iechyd a diogelwch wrth ymchwilio i ddigwyddiadau;
- Ymchwilio i gwynion iechyd a diogelwch gan gyflogeion yn y gwaith;
- Cynrychioli cyflogeion mewn trafodaethau â rheolwyr neu gyrff gorfodi (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu'r heddlu);
- Mynd i gyfarfodydd yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolydd diogelwch;
- Cynnig cyngor ar faterion iechyd a diogelwch penodol yn eu maes gwaith;
- Cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch yn y gweithle;
- Codi pryderon neu gwynion ynglŷn ag iechyd a diogelwch a adroddir iddynt gan gyflogeion.

## 3.7 Y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth

Bydd y gwasanaeth yn casglu data ynghylch absenoldeb oherwydd salwch trwy'r system Ceri at ddibenion nodi tueddiadau o ran absenoldeb a allai fod yn gysylltiedig â gweithgareddau gwaith a chynorthwyo â threfnu hyfforddiant iechyd a diogelwch.

Bydd y tîm iechyd a diogelwch yn darparu arweiniad pan fo gweithred gan gyflogai yn mynd yn groes i drefniadau iechyd a diogelwch a allai arwain at gamau disgyblu.

## 3.8 Cyflogeion

Mae'n rhaid i'r holl gyflogeion gydweithio i weithredu'r polisi hwn. Mae cyfrifoldeb arnynt:

- I ofalu'n rhesymol am eu hiechyd a diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill drwy'r hyn yr ydym yn ei wneud neu'n methu â'i wneud;
- I gydweithredu ym mhob mater iechyd a diogelwch;
- I gynorthwyo datblygiad a gweithrediad systemau gwaith diogel;
- I fynd i hyfforddiant iechyd a diogelwch a chymryd rhan ynddo;
- I sicrhau safonau cadw tŷ diogel yn eu gweithle;
- I adrodd am ddigwyddiadau a damweiniau fu bron digwydd trwy ddefnyddio system adrodd digwyddiadau IR1;
- I gynorthwyo mewn ymchwiliadau i ddigwyddiadau;
- I roi gwybod i'w rheolwr ar unwaith am unrhyw nam neu ddiagnosis a allai effeithio'n negyddol ar eu gallu i gyflawni eu gwaith yn ddiogel;
- I gynorthwyo â phrosesau asesu risg;
- I ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir;
- I beidio â chamddefnyddio na tharfu'n fwriadol neu drwy ddiofalwch ar unrhyw beth a ddarperir yn enw iechyd, diogelwch neu les;

Ystyrir unrhyw fethiant ar ran y cyflogai i gyflawni ei gyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn fater difrifol. Gall hyn arwain at gamau disgyblu yn dibynnu ar ddifrifoldeb y methiant.

## 3.9 Fforwm Iechyd a diogelwch

Bydd y fforwm iechyd a diogelwch yn cynnwys y Prif Weithredwr, cynrychiolwyr diogelwch o'r undebau llafur, aelod etholedig penodedig a hyrwyddwyr iechyd a diogelwch o blith yr uwch reolwyr, uwch reolwyr a'r rheolwr iechyd a diogelwch. Bydd y fforwm yn:

- Monitro effeithiolrwydd trefniadau iechyd a diogelwch
- Cefnogi a hyrwyddo arferion da iechyd a diogelwch trwy rannu gwybodaeth
- Ystyried ac yn ymateb i adroddiadau archwilio, digwyddiadau a phryderon a godir gan gynrychiolwyr iechyd a diogelwch.
- Monitro trefniadau rheoli iechyd a diogelwch
- Cefnogi polisi a datblygiad iechyd a diogelwch
- Hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles

# 4 Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi rhoi ar waith gynllun gwella iechyd a diogelwch dwy flynedd, sy'n nodi ac yn monitro perfformiad iechyd a diogelwch trwy bennu dangosyddion perfformiad a adolygir yn flynyddol. Bydd y cynllun hwn ar gael ar fewnrwyd y cyflogeion, Ceri Net.

# 5 Adolygu'r Polisi

Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi hwn yn ôl y galw i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth, prosesau, cyfarpar a chyfraith achos iechyd a diogelwch.

Atodiad 1

# Trefniadau Iechyd a diogelwch

## 5.1 Adrodd am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt

Mae Rheoliadau Adrodd Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 2013 yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i adrodd am ddamweiniau penodol yn y gweithle a digwyddiadau peryglus penodedig (damweiniau fu bron digwydd). Mae'n rhaid adrodd am bob digwyddiad a damweiniau fu bron digwydd yn ffurflen adrodd digwyddiadau IR1.

Mae arweiniad ar sut i ddefnyddio'r system a llenwi'r ffurflen ar gael ar Ceri Net trwy ddefnyddio'r ddolen isod.
https://ceri.ceredigion.gov.uk/net/cy/managers-toolkit/pecyn-cymorth-rheolwyr-corfforaethol/iechyd-diogelwch-a-lles/cofnodi-digwyddiadau/.

## 5.2 Asesiadau risg

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau y cynhelir asesiad risg gan berson cymwys os ceir gweithgareddau gwaith peryglus er mwyn nodi a oes angen cymryd camau rheoli i liniaru unrhyw risgiau. Dylid adolygu asesiadau risg yn rheolaidd, a chyfleu unrhyw newidiadau dilynol i arferion gweithio i'r bobl berthnasol.

I gael arweiniad ar gwblhau asesiadau risg (gan gynnwys asesiad risg i famau newydd/menywod beichiog) a chael gafael ar dempledi asesiadau risg, ewch i https://ceri.ceredigion.gov.uk/net/cy/managers-toolkit/pecyn-cymorth-rheolwyr-corfforaethol/iechyd-diogelwch-a-lles/cofnodi-digwyddiadau/ neu cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch.

I wneud cais am hyfforddiant ar asesiadau risg, cysylltwch â dysgu@ceredigion.gov.uk.

## 5.3 Sylweddau peryglus

Mae Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddiogelu cyflogeion rhag sylweddau peryglus yn y gwaith. Yn rhai o feysydd gwaith y Cyngor, mae asesiadau risg yn nodi gweithgareddau 'peryglus' a chamau rheoli i'w rhoi ar waith i leihau'r risg. Gall y camau rheoli hyn gynnwys newid y cemegion yr ydym yn eu defnyddio i fod yn rhai llai peryglus, cyflwyno system awyru,

newid ble yr ydym yn cynnal y gweithgareddau neu gyflwyno cyfarpar diogelu personol addas.

## 5.4 Diogelwch personol / gweithio'n unigol

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 i sicrhau diogelwch personol ein cyflogeion yn y gwaith, gan ystyried yn benodol weithwyr sy'n gweithio'n unigol.
Mae'n rhaid adrodd am bob achos o drais, cam-drin neu aflonyddu tuag at ein cyflogeion trwy'r system IR1 (gweler trefniant rhif 1)

Am ragor o arweiniad, cymorth asesu risg a mynediad at system templed cardiau cyfaill, cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch.

## 5.5 Cyfarpar Diogelu Personol

Mae Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr nodi pan fo risgiau i iechyd a diogelwch y gweithlu na ellir eu rheoli'n ddigonol mewn ffyrdd eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu cyfarpar diogelu personol.

Darperir y cyfarpar gan y rheolwr llinell/goruchwyliwr perthnasol i gyflogeion yn y cyfnod ymsefydlu a chaiff rhai newydd eu darparu pan fydd eu hangen. Y cyflogeion sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu cyfarpar diogelu personol yn parhau i fod yn addas i'w diben ac am adrodd am ddiffygion.

## 5.6 Diogelwch tân

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn rhoi cyfrifoldebau i reolwyr a chyflogeion ynghylch diogelwch tân a gadael adeilad. Mae'n ofynnol cynnal asesiad risg tân ym mhob adeilad yn y gweithle a rhoi camau lleihau risg ar waith. Mae'n ofyniad cyfreithiol cynnal ymarferion tân a darparu a chynnal a chadw cyfarpar diffodd tân yn ogystal â'r dyletswyddau sydd gan gyflogwyr i roi gweithdrefnau gadael mewn argyfwng ar waith pan fo'u hangen. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch.

## 5.7 Offer sgrin arddangos

Mae **Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin Arddangos) 1992** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddiogelu cyflogeion a nodir yn 'ddefnyddwyr offer sgrin arddangos' rhag risgiau i iechyd o ganlyniad i ddefnydd hirdymor o offer sgrin arddangos.

I gael cyngor ar bwy sy'n 'ddefnyddiwr offer sgrin arddangos' ac arweiniad ar gwblhau a chael gafael ar asesiad y Cyngor ar offer sgrin arddangos, cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch.

## 5.8 Diogelwch trydanol

Mae **Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989** yn gosod goblygiadau cyfreithiol ar gyflogwyr i sicrhau dyfeisiau trydanol diogel yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys profi ac archwilio offer trydanol, cynnal asesiadau risg a hyfforddiant pan fo'u hangen, ac yn rhoi dyletswydd ar yr holl gyflogeion sy'n gweithio gydag offer trydanol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch.

## 5.9 Trwydded waith

Mae'n bosibl y bydd angen trwydded waith ar gyfer unrhyw waith sy'n cynnwys prosesau peryglus a phan fo risg gweddilliol. I gael arweiniad ar ba weithgareddau y gall trwydded waith fod yn ofynnol ar eu cyfer, cysylltwch â'r tîm iechyd a diogelwch.

## 5.10 Sŵn yn y gwaith

Mae **Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr asesu a chymryd camau i leihau'r sŵn y mae cyflogeion yn dod i gysylltiad ag ef yn y gwaith.

I wneud cais i'r tîm iechyd a diogelwch gynnal darlleniad sŵn ar gyfer asesiad, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Healthandsafety@ceredigion.gov.uk

## 5.11 Cyfarpar Gwaith

Mae Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau'r canlynol:

- bod cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio

- bod cyfarpar yn ddiogel (wedi'i gynnal a'i gadw, ei drin a'i archwilio)
- bod defnyddwyr wedi'u hyfforddi ac yn hyfedr
- bod camau diogelu digonol ar waith (amddiffyniadau, stop brys, rheoliadau ynysu)
- y caiff cyfarpar ei ddefnyddio yn unol â gofynion penodol, ar gyfer cyfarpar gwaith symudol a gwasgwyr pŵer

Mae hyn yn berthnasol i'r holl gyfarpar gwaith, gan gynnwys cyfarpar ail law, wedi'i logi neu ar brydles. Yn ogystal â'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith, deddfwriaeth arall a all fod yn berthnasol yw **Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998** ar gyfer yr holl ddyfeisiau ac ychwanegiadau codi, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal archwiliadau/gwiriadau gweledol ychwanegol i gydymffurfio â nhw.

## 5.12 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Ers mis Mai 2019 darperir gwasanaeth iechyd galwedigaethol y Cyngor gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Rhannwyd y gwasanaeth yn flaenorol rhwng dau ddarparwr ond mae bod ag un gwasanaeth penodedig wedi bod yn gyfle i ganolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael i reolwyr a staff. Defnyddir y gwasanaeth yn bennaf i roi cyngor ar sgrinio iechyd penodiadau newydd a chefnogi aelodau staff a rheolwyr sydd ar gyfnodau o salwch hirdymor. Caiff aelodau staff eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth gan eu rheolwyr llinell drwy system ar-lein a bydd apwyntiadau naill ai gyda nyrs iechyd galwedigaethol neu ddoctor, yn dibynnu ar y rheswm dros yr atgyfeiriad. Caiff yr adroddiad iechyd galwedigaethol ei drin yn gyfrinachol a'i roi i'r rheolwr llinell yn dilyn cymeradwyaeth yr aelod staff yn unig.

Gall rheolwyr gael gafael ar ffurflen Atgyfeirio i Iechyd Galwedigaethol o Ceri Net. Gellir gofyn am gymorth i lenwi'r ffurflen trwy gysylltu â humanresources@ceredigion.gov.uk.

## 5.13 Cymorth a Chyngor

I gael cymorth a chyngor ar yr holl faterion iechyd a diogelwch yn y gweithle, cysylltwch â Healthandsafety@ceredigion.gov.uk

Mae cyhoeddiadau a rhagor o arweiniad ar Iechyd a diogelwch ar gael yn www.hse.gov.uk